peirianneg arloesol






# Adroddiad ESG

## 2024/25

JONES BROS
CIVIL ENGINEERING UK



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Neges gan y Cadeirydd** | 02 |
| **Amgylcheddol** | 04 |
| **Cymdeithasol** | 06 |
| **Llywodraethiant** | 08 |
| **Proffiliau Staff** | 10 |
| **Wyddech chi?** | 12 |


# Neges gan y Cadeirydd

Yn Jones Bros Civil Engineering UK mae gennym enw rhagorol am ansawdd ein gwaith, ond mae yr un mor bwysig ein bod yn derbyn clod am roi sylw rhagorol i faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG).

Mae ein cefnogaeth i gymunedau lleol, ein ffordd ofalus o drin yr amgylchedd a'n hymrwymiad cadarn i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch yn dyddio nôl yr holl ffordd i'r dechrau pan sefydlwyd y busnes.

Mae'n rhan annatod o'n DNA ac, er ein bod bob amser wedi gwneud ein gorau i ddatgan hynny yn fewnol ac yn allanol, mae'r adroddiad ESG hwn yn gyfle da i ddwyn sylw at y pethau ardderchog sy'n digwydd ar draws ein cwmni.

Bu ein hymrwymiad i ragoriaeth amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn rhan greiddiol o'n gwaith ers pum deg mlynedd. Wrth symud ymlaen, ein nod yw parhau i osod y safonau uchaf o fewn ein diwydiant ac ym myd busnes yn gyffredinol.

Yn y misoedd diwethaf mae ein tîm o weithwyr medrus wedi dechrau gwaith ar ddau brosiect arwyddocaol iawn.

Ynghyd â chwmni Mackley as Future Water MJJV Limited, rydym yn adeiladu Argae Havant Thicket yn Hampshire – y gronfa ddŵr fawr gyntaf i gael ei hadeiladu yn y Deyrnas Unedig ers y 1980au.

Yn Uskmouth rydym yn adeiladu un o gynlluniau mwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer storio ynni mewn batris. Bydd y prosiect battery energy storage system (BESS) yn cyfrannu mewn ffordd allweddol at gyrraedd y targedau sero net drwy ddatgarboneiddio pob sector o economi Prydain erbyn 2050.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar gynlluniau ffermydd gwynt nodedig yn yr Alban, sef Fferm Wynt 44 tyrbin Sanquhar a Fferm Wynt 20 tyrbin Windy Standard III. Bydd y ddau gynllun yn creu ynni adnewyddadwy glân.

**Huw Jones MBE**
**Cadeirydd**

## Ymrwymiad Jones Bros i ragoriaeth amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (Environmental, Social and Governance - ESG) – mae'n ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i barchu pobl, cymunedau ac amgylcheddau lle bynnag y byddwn yn gweithio, heb gyfaddawdu o gwbl ar ansawdd ein gwaith.

Mae ymgysylltu â thrigolion a chreu perthynas dda gyda rhanddeiliaid allweddol eraill ger ein mannau gwaith yn ddisgwyliad hanfodol ar draws ein busnes.

Ceisiwn fod mor greadigol â phosibl yn ein ffyrdd o gysylltu â chymunedau lleol. Felly y buom yn gweithio ers dros 50 mlynedd.

Er enghraifft, yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi cefnogi gwaith dwy amgueddfa – Amgueddfa'r Cymry Brenhinol ac Amgueddfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Porthaethwy sy'n adrodd hanes Pont Thomas Telford a Phont Britannia dros Afon Menai.

Sefydlwyd partneriaeth strategol tair blynedd gyda Sioe Môn a chefnogwyd achosion da yn amrywio o Fudiad Achub Ogofau Gogledd Cymru i Wasanaeth Gwybodaeth ac Allgymorth Gwledig Sir Ddinbych sy'n cael ei redeg gan Mind Dyffryn Clwyd.

Hefyd cefnogwyd timau chwaraeon, yn cynnwys Clwb Bocsio Amatur Dinbych a'r Cylch, timau pêl droed dan 8 oed Bae Penrhyn a Merched Tref Dinbych, Bebbington Twin Piers 10km, a thimau rygbi'r Stewartry Sharkettes.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â thîm Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru i geisio rhwystro lladron rhag dwyn offer a pheiriannau, y mae gwerth tua £1 miliwn ohonynt yn diflannu bob wythnos.

Bu swyddogion yn mynychu cwrs ymgyfarwyddo ag offer a symud peiriannau er mwyn deall natur a pheryglon peiriannau yn well.

Ni fyddwn byth yn cyfaddawdu ar faterion diogelwch y cyhoedd a'n staff. I gydnabod hynny, roedd yn anrhydedd fawr derbyn tystysgrif rhagoriaeth y Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA) am gyrraedd y lefel aur 16 gwaith yn olynol.

Ymfalchïwn yn ein traddodiadau Cymreig ac mae nifer sylweddol o'n swyddogion yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Fel y dywed ein Polisi Iaith Gymraeg, defnyddiwn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyson ym mhob agwedd o'n gwaith ac mae'r cwmni a'i weithwyr yn falch o gefnogi ac annog siaradwyr newydd sy'n dysgu'r iaith Gymraeg.





**Meddai Paul Senior, Swyddog Monitro'r Cynllun Adeiladwyr Ystyrlon (CCS) ar gyfer cynllun amddiffyn arfordir Bae Penrhyn:** "Mae gan Jones Bros ymrwymiad clir i'r holl elfennau angenrheidiol ar gyfer bod yn adeiladydd ystyrlon a blaenoriaethu'r gymuned a'r amgylchedd, yn ogystal â gofalu am ei weithlu. Cafodd llawer o'n staff eu cyflogi'n uniongyrchol gan y cwmni ar ôl ymuno fel prentisiaid."

# Amgylcheddol

Mae Jones Bros yn benderfynol o ddefnyddio llai o ynni wrth wneud ei waith o ddydd i ddydd, ac yn gobeithio cyrraedd sero net erbyn 2050.

Er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, rydym yn ystyried faint o ynni a ddefnyddir ym mhob rhan o'n trefniadau gwaith.

Bwriadwn wella ein perfformiad ynni'n barhaus drwy wneud y pethau canlynol:

- Gofalu ein bod yn cydymffurfio â phob gofyniad cyfreithiol a disgwyliad cydymffurfio o ran defnydd ynni, effeithlonrwydd ac adrodd ar berfformiad
- Cynllunio a gweithio tuag at leihau 25% ar ein allyriadau carbon yn unol â'n cynllun lleihau carbon pum mlynedd a ddechreuodd yn 2020
- Ymrwymo i ddyhead y Deyrnas Unedig a'r diwydiant adeiladu i fod yn garbon sero net erbyn 2050
- Gofalu fod digon o wybodaeth ac adnoddau yn cael eu darparu i gyrraedd ein targedau a nodau
- Buddsoddi yn nhechnegau hybrid, trydan hydrogen y dyfodol i bweru ein fflyd o beiriannau a cherbydau ffordd
- Defnyddio data telematig i gynyddu ymwybyddiaeth, lleihau amser segur a gwella effeithlonrwydd y fflyd
- Prynu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n defnyddio ynni mewn ffordd effeithlon
- Cynyddu seilwaith ynni adnewyddadwy ein safleoedd parhaol lle bo hynny'n ymarferol
- Cael ynni ar gyfer ein safleoedd parhaol a safleoedd dros dro o ffynonellau adnewyddadwy lle bo hynny'n ymarferol
- Enwebu pencampwyr ynni ar gyfer pob swyddfa barhaol a phrosiect sy'n werth mwy nag £1 miliwn a/neu yn para 20 wythnos neu fwy
- Cynyddu dealltwriaeth am agweddau carbon ar draws ein gweithlu a gofalu fod ein gweithlu yn gwybod sut i leihau gymaint â phosibl ar y defnydd o ynni ac allyriadau wrth wneud eu gwaith
- Rhannu gwybodaeth am ein polisi a'n hymrwymiad i leihau defnydd ynni ac allyriadau carbon gyda'n rhanddeiliaid
- Adolygu perfformiad y cwmni'n rheolaidd
- Cyfathrebu a hyrwyddo'r polisi hwn ar bob lefel o fewn y cwmni.

Mae'r buddsoddiad arwyddocaol a wnaethom mewn offer a pheiriannau dros y 18 mis diwethaf yn cadarnhau ein dymuniad i wella'n barhaus.

Mae tyllwyr (excavators) hybrid newydd HB365LC-11s wedi helpu i arbed tua 19% o'r amser y bydd y peiriannau ar waith – gan arbed swm sy'n cyfateb i chwech litr bob 60 munud.

Mae teirw dur (bulldozers) D85PXi-18 wedi cynyddu effeithlonrwydd ac yn llosgi llai o danwydd drwy gynyddu cynhyrchedd a chywirdeb, gyda chymorth system GPS glyfar.

Mae ein tîm hefyd yn rhannu ei arbenigedd yn y maes gydag eraill, ac mae Tony Murphy yn helpu i siapio dyfodol ynni adnewyddadwy o'r môr.

Roedd ein pennaeth cefnogi rheolaeth y busnes yn aelod o banel arbenigol yng nghynhadledd flynyddol Ynni Môr Cymru a fu'n trafod y posibilrwydd o gael gweithlu o Gymru i osod a chynnal a chadw'r llif o brosiectau adnewyddadwy ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

# Prosiectau Arloesol

**Dogger Bank**

Carreg filltir bwysig i'r cwmni oedd ein gwaith yn egnïo un o'r 277 o dyrbinau 13MW yn fferm wynt Dogger Bank a dechrau cynhyrchu pŵer. Dyma'r fferm wynt ar y môr fwyaf yn y byd.

Gosodwyd bron i 77 milltir o gerrynt uniongyrchol foltedd uchel (HVDC) ar y tir a 15 milltir o gerrynt eiledol (alternating current) (HVAC) er mwyn cysylltu dau gyfnod cyntaf y prosiect, Dogger Bank A a B, i'r grid cenedlaethol.

Roedd ein gwaith yn cynnwys gosod mwy na chwech cilomedr o gebl HVAC o'r orsaf drosi i is-orsaf drydan Creyke Beck ar gyfer cyfnod dechreuol y datblygiad.

Cynhyrchir digon o drydan i bweru tŷ nodweddiadol am ddau ddiwrnod gan ddim ond un cylchdro o bob tyrbin a leolwyd oddi ar arfordir Swydd Efrog ym Môr y Gogledd. Cyflenwir ynni glân i 6 miliwn o dai Prydain bob blwyddyn pan gwblheir y prosiect.

**Bae Penrhyn**

Ni oedd y cwmni cyntaf i ailgartrefu poblogaeth gyfan o fwydod crwybr (honeycomb reef worms) drwy symud eu rîff fel rhan o'n gwaith ar gynllun amddiffyn arfordir Bae Penrhyn – cynllun mawr yn costio miliynau o bunnoedd.

Credir mai dyma'r tro cyntaf erioed yn y byd i hyn ddigwydd gan arbed darn mawr o gynefin y sabellaria alveolata ar ôl gosod tua 1,000 tunnell o ddeunydd traeth i ffurfio'r sylfeini.

Gyda chefnogaeth CloudBase Productions Ltd, fe wnaethom ailgartrefu slabiau o rîff y mwydod crwybr gan eu symud yn ofalus o leoliad y wal amddiffyn newydd, eu cludo'n syth i'w cynefin newydd a'u gosod yn ofalus yn unol â'u siâp a strwythur blaenorol.

Cafodd prosiect Bae Penrhyn ddyfarniad 'ardderchog' (excellent) y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (Considerate Constructors Scheme) am arferion gwaith y safle.

Derbyniwyd sgôr o 15 – sef y sgôr berffaith – yn y categorïau 'parchu'r gymuned' a 'gwerthfawrogi'r gweithlu' a sgôr cyfartalog o 14.5 am 'ofal dros yr amgylchedd' yn dilyn dau ymweliad annibynnol gan drefnwyr y cynllun.

**Gwaith yn Yr Alban**

Mae ein gwaith yn Yr Alban yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddatblygiadau pwysig.

Yn Fferm Wynt Benbrack, i baratoi ar gyfer derbyn y tyrbinau, buom yn creu llwybr mynediad 10km, gosod sylfeini 15 tyrbin, adeiladu is-orsaf, a gosod ceblau trydan.

Manteisiwyd ar ein profiad ar gyfnod cyntaf Fferm Wynt Kennoxhead, datblygiad 13 tyrbin yn yr Alban a fydd yn cynhyrchu digon o drydan i bweru 64,000 o dai.

Roedd ein gwaith yn Ne Lanarkshire yn cynnwys dylunio ac adeiladu sylfeini ar gyfer tyrbinau, pont 24 metr Glespin Bridge, adeilad yr is-orsaf a 24km o ffosydd i gladdu ceblau.

Hefyd, fe wnaeth ein tîm o 30 o bobl yn yr Alban uwchraddio 5k o ffordd gyhoeddus ac 8km o lwybrau ochr oedd eisoes yn bodoli, ynghyd â chreu 10km o lwybrau mynediad newydd.

Ni yw'r prif gontractwr ar gyfer cynllun £300 miliwn 49 tyrbin Fferm Wynt North Kyle ger Dalmellington yn yr Alban. Bydd y cynllun hwn yn gallu pweru mwy na 160,000 o gartrefi.






**Meddai prif hyfforddwr Clwb Bocsio Amatur Dinbych a'r Cylch, sydd hefyd yn bennaeth cefnogi busnes Jones Bros:** "Mae Jones Bros bob amser yn awyddus i gefnogi'r gymuned drwy wella ansawdd bywydau. Bu eu cyfraniad at ein llwyddiant yn allweddol, a'u cefnogaeth yn fodd i drawsnewid y clwb."

# Cymdeithasol

Mae Jones Bros yn frwd o blaid hyrwyddo gwerthoedd cymdeithasol a darparu cyfleoedd cadarnhaol i bawb. Boed yn berthynas â staff, materion amrywiaeth, amodau gwaith, cymunedau lleol, iechyd a diogelwch neu ddelio â gwrthdaro, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein perfformiad, sydd eisoes yn hynod o dda.

## Gyrfaoedd

Rydym yn parhau i redeg prentisiaethau, gyda llawer o'n uwch reolwyr wedi dechrau fel prentisiaid neu dan hyfforddiant. Rydym wedi cyflogi cannoedd o brentisiaid dros y blynyddoedd.

Yn wir, rydym wedi ailddatgan ein hymrwymiad i bobl ifanc drwy lansio ein cynllun hyfforddi gyrwyr peiriannau yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar ariannu prentisiaethau lefel dau a newid i'r fframwaith lefel tri.

Roedd y cynllun prentisiaeth lefel dau yn cynnig cyfleoedd gyrfa i rai â'u bryd ar waith ymarferol yn defnyddio'u dwylo, ac fe wnaethom gyflogi dros 300 o bobl dros y deg mlynedd diwethaf.

Gyda'r nod o sicrhau fod pobl ifanc yn dal i fedru dilyn llwybr i beirianneg sifil, mae'r cynllun hyfforddi gyrwyr peiriannau yn gontract 15 mis sy'n dechrau gyda hyfforddiant iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol.

Yna bydd y prentisiaid yn dysgu sgiliau trin peiriannau gan ddilyn cwrs safonol y Construction Plant Competence Scheme (CPCS) lle cânt brofiad o drin dympars blaendywallt, rolars reidio, tractorau, llwythwyr telescopic a dympars cymalog.

Ar ddiwedd yr hyfforddiant bydd y prentis yn derbyn cerdyn coch CPCS ar gyfer y categori y cafodd ei hyfforddi ynddo a'i brofi cyn symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach cyn dechrau gweithio ar safle.

Cam cyffrous yn ein hymrwymiad i ddiogelu dyfodol y diwydiant adeiladu oedd cyflwyno gwelliannau mawr i'n cynllun prentisiaeth uwch.

Am y tro cyntaf, rydym yn rhedeg prentisiaeth sy'n arwain at radd anrhydedd gyflawn, yn cynnwys BEng (Hons) mewn peirianneg sifil a BSc (Hons) mewn maintfesur (quantity surveying).

Ymunodd naw o wynebau newydd â Jones Bros ar 1 Hydref am dair wythnos o brofiad gwaith cyn dechrau astudio yng Ngholeg Cambria, sydd wedi partneru gyda Phrifysgol Wrecsam.

Mae saith ohonynt yn rhan o'r rhaglen peirianneg sifil, lle mae'r prentisiaid yn mynychu bloc astudio 10 wythnos yn y coleg bob blwyddyn, a bydd y ddau faintfesurydd yn mynychu gwersi mewn dosbarth un diwrnod yr wythnos.

Rydym hefyd yn rhoi cyfle i ddarpar beirianwyr sifil gael cipolwg ar ddyfodol y diwydiant mewn oedran ifanc iawn trwy gymryd rhan mewn Her Adeiladu Pont.

Mae hwn yn brofiad difyr ymarferol wedi ei lunio i ddal diddordeb unigolion o bob oed – a'r dasg yn helpu i greu diddordeb mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (y pynciau STEM).

Rhoddir cyfle i blant a phobl ifanc adeiladu pont grog (suspension bridge) 13 metr o hyd gan wahodd pob un ohonynt i groesi'r bont ar ôl iddi gael ei chwblhau.

Y prif darged yw disgyblion cynradd ac uwchradd, ac mae'r broses yn datblygu gwaith tîm, creadigrwydd a sgiliau datrys problemau ymarferol.

Cafodd ein cadeirydd Huw Jones MBE ei anrhydeddu mewn derbyniad arbennig yn 10 Downing Street i gydnabod ei gyfraniad tuag at hyfforddi pobl ifanc.

Rydym hefyd wedi parhau i ddangos ein cefnogaeth i'r lluoedd arfog drwy arwyddo Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn 2022.

Daeth Jonathan Dennehy, cyn filwr ym Myddin Prydain, i weithio yn Nhŷ Glyn fel rheolwr gwella ansawdd a busnes wedi gyrfa amrywiol o 24 mlynedd a oedd yn cynnwys cyfnodau o wasanaeth yn Affganistan, Kosovo a Bosnia.

## Cymunedol

Mae ymwneud â'r gymuned yn rhan allweddol o bob un o'n prosiectau, gan gynnwys cynllun Morlais Ynys Môn – sef cynllun ynni llanw'r môr.

Tra'r oedd y gwaith yn mynd yn ei flaen ym Mharc Cybi roedd gennym gompownd a swyddfa safle yng Nghlwb Pêl Droed Hotspurs Caergybi.

Roeddem yn benderfynol o adael etifeddiaeth i'r ardal a manteisiodd clwb Hotspurs Caergybi o dderbyn y canlynol:

- Pyst gôl newydd ar gae'r tîm ieuenctid
- Nawdd ar gyfer cit hyfforddi'r tîm cyntaf
- Ail baentio marciau'r llefydd parcio ar gyfer cerbydau bathodynnau glas
- Rhoi profion PAT i offer trydanol
- Trwsio ffensys diogelwch a gosod gatiau newydd

Cafodd Canolfan Hamdden Caergybi ei harddu drwy adeiladu blychau dal planhigion, sy'n cael eu defnyddio gan grŵp dementia i blannu blodau a llwyni. Hefyd, prynwyd a dangoswyd baneri yn hysbysebu'r gwersi nofio ar ffensys Jones Bros.

Cefnogwyd daliadau amaethyddol lleol trwy i dimau o Jones Bros wneud gwelliannau, yn cynnwys gwella neu ailgodi waliau terfyn, gosod gatiau newydd, codi ffensys dros dro ar gyfer ceffylau a darparu deunydd llenwi i gynnal a chadw traciau mynediad.

Cyflwynwyd swm tri ffigwr i'r RNLI gydag arian a godwyd mewn swîp pêl droed Cwpan y Byd.

Mae'r gefnogaeth amrywiol arall a roddwyd yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrannu tuag at brynu set o dreipodau rock exotica vortex i helpu Mudiad Achub o Ogofau Gogledd Cymru (NWCRO) i barhau i ddiogelu a gofalu am bobl ac anifeiliaid sydd wedi eu hanafu neu'n gaeth
- Rhoi peiriannau pwysig i Ysgol Uwchradd Dinbych fedru mynychu Ffeinal 'F1Mewn Ysgolion' y Byd yn Saudi Arabia
- Cefnogi Clwb Bocsio Amatur Dinbych a'r Cylch gyda chludiant i Bencampwriaethau Bocsio Nofis Cymru yn Ne Cymru
- Noddi citiau cartref, oddi cartref a hyfforddi Tîm Pêl Droed Merched Tref Dinbych
- Darparu dillad hyfforddi addas i 50 o hyfforddwyr gwirfoddol Clwb Rygbi Rhuthun, sy'n meithrin sgiliau 18 o dimau dynion a merched o'r oedran dan 7 hyd at grwpiau oedolion
- Helpu Ymddiriedolaeth Gymunedol Treftadaeth Menai i barhau i gyrraedd eu targed blynyddol o £5,000 er mwyn parhau i weithredu, gwarchod treftadaeth Gymreig ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr
- Helpu i gadw'r olwynion yn troi yn D.O.R.I.S - Gwasanaeth Allgymorth Gwledig Sir Ddinbych, a redir gan Mind Dyffryn Clwyd
- Cefnogi chwaraewr pêl droed cadair bŵer rhyngwladol o'r Alban i gynrychioli ei wlad mewn camp nad yw'n cael ei ariannu'n llawn
- Darparu deunydd, gwerth pedwar ffigwr, i wella cae pêl droed Cymuned Rankinston yn Nwyrain Ayrshire.

I gydnabod y cymorth hwn, derbyniodd Morlais gydnabyddiaeth a chlod am Ymgysylltu â'r Gymuned yng Ngwobrau Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Cymru 2024.






**Meddai Julia Small, cyfarwyddwr cyflawniadau gyda RoSPA:**
"Llongyfarchiadau i Jones Bros Civil Engineering UK ar ennill un o brif wobrau rhagoriaeth RoSPA. Mae eu gofal parhaus yn sicrhau fod eu staff, cleientau a chwsmeriaid bob amser yn cael eu gwarchod rhag niwed neu ddamwain."

# Llywodraethiant

Drwy ymddwyn yn briodol y mae cwmni'n cael enw da. Ceisiwn ofalu fod ein gweithredoedd ni, a'r rhai sy'n gweithio inni neu ochr yn ochr â ni, yn cyd-fynd â'n hegwyddorion.

Ceisiwn wneud y peth iawn bob dydd, a sicrhau mai iechyd a diogelwch yw ein gwerth pwysicaf.

Cydnabyddiaeth o hyn yw'r ffaith ein bod wedi ennill tystysgrif rhagoriaeth y Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA) am gyrraedd y safon aur 16 gwaith yn olynol.

Mae gwobrau iechyd a diogelwch RoSPA ymhlith y rhai pwysicaf ac uchaf eu parch yn y byd, gyda bron i 2,000 o geisiadau amdanynt bob blwyddyn. Daw y ceisiadau o 50 o wledydd gan ymwneud â thros 7 miliwn o weithwyr.

Mae gennym ymrwymiad clir i hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant ac rydym yn defnyddio gwasanaethau Mates in Mind (MiM) i'r perwyl hwn.

Mae'r elusen iechyd meddwl blaengar yma'n codi ymwybyddiaeth a chynnal sgyrsiau am bwysigrwydd iechyd a llesiant yn y gweithle. Fel rhan o'm hymrwymiad parhaus i ddarparu gweithle cynhaliol, fe wnaethom gynnal asesiad a ddaeth i'r casgliad ein bod yn cyrraedd y safon uchaf posibl – sef cynaliadwy ('sustainable'.)

I gyrraedd y safon hwn rhaid dangos eich bod yn gweithredu'n gyson i reoli iechyd meddwl eich staff; bod ffordd aeddfed o weithredu wedi gwreiddio yn arferion y cwmni a bod hynny'n cael ei gyfleu a'i adrodd yn glir i'r holl randdeiliaid angenrheidiol.

Yna cawsom ddyfarniad 'highly recommended' yng Ngwobrau'r 'Best Workplace Mental Health Team' gan MiM fel rhan o'r Wythnos Iechyd Dynion .

Mae iechyd meddwl yn uchel ar ein hagenda fel cwmni, gyda nifer o'n staff bellach wedi cymhwyso i roi cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Nid yw hwn ond un o'r cyrsiau hyfforddi a drefnwn – mae nifer o gyrsiau amrywiol ar gael, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, yn y misoedd diwethaf cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddiant defnyddio diffibrileiddwyr fel ein bod yn fwy parod i ymateb i argyfyngau.

Dyma rai o’n achrediadau allweddol a’n haelodaeth o wahanol sefydliadau:

- UKAS, BM TRADA – ISO 45001:2018 System Reoli Iechyd Galwedigaethol a thystysgrif SSIP
- UKAS, BM TRADA ISO 9001:2015 System Reoli Ansawdd a thystysgrif NHSS16
- UKAS, BM TRADA, ISO 14001:2015 Tystysgrif System Reolaeth Amgylcheddol
- UKAS, BM TRADA, ISO 50001:2018 Tystysgrif System Reolaeth Ynni
- Achilles UVDB/Verify, Rhif Cyflenwr: 00024491
- Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA)
- Aelod o Constructionline
- Institution of Civil Engineers (unigolion yn aelodau proffesiynol a chanolfan hyfforddi achrededig)
- EcoVadis – Corporate Social Responsibility (CSR)
- Mates in Mind
- Ardystiad Cyber Essentials

Am restr lawn, ewch i’n gwefan **jones-bros.com**

## Digwyddiadau Colli Amser / Lost Time Incident (LTI)

Drwy gadw at y safonau uchaf, rydym wedi cyrraedd carreg filltir bwysig iawn.

Gweithiwyd 500 diwrnod neu 500,000 awr ar ein gwahanol safleoedd heb unrhyw ddigwyddiad lle collwyd amser yng nghynllun Fferm Wynt North Kyle, sef cynllun 49 tyrbin gwerth £300 miliwn ger Dalmellington yn yr Alban.

Digwyddiad Colli Amser LTI yw niwed i aelod o staff sy’n arwain at golli amser gweithio cynhyrchiol am na all y gweithiwr hwnnw wneud ei ddyletswyddau rheolaidd.

Gyda hyd at 250 o bobl ar y safle ar unrhyw adeg, buom yn defnyddio ein diwylliant ‘Diogelach Gyda’n Gilydd / Together Safer’ i sicrhau agwedd gadarnhaol a rhagweithiol (proactive) tuag at iechyd a diogelwch gan bob gweithiwr a chontractwr.

Mae’r drefn hon yn annog y gweithlu i herio’n agored unrhyw un a wnaeth rhywbeth anniogel neu sy’n dilyn gweithdrefn anniogel, neu rai sydd ar fin gwneud hynny. Mewn sefyllfa o’r fath disgwylir i’r grŵp cyfan gydweithio i ganfod atebion a cheisio rhwystro ymddygiadau neu ddewisiadau gwael.

Mewn cynlluniau cymell ar y cyd, gweithredwyd law yn llaw â’r cleient, Brockwell Energy, a fu’n annog ymyriadau positif ac adrodd am ddigwyddiadau gan ddefnyddio Cerdyn Atal Digwyddiad (Incident Prevention Card - IPC).






# Proffiliau Staff

## Casey Parry

### Cynghorydd Iechyd a Diogelwch

Mae Casey yn berson graddedig sy'n gofalu fod cwmni Jones Bros yn cydymffurfio â safonau diogelwch wrth weithio ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae'n cefnogi'r tîm iechyd a diogelwch ehangach, rheolwyr prosiectau a goruchwylwyr i wneud yn siŵr fod gofynion diogelwch yn cael blaenoriaeth bob amser.

O ddydd i ddydd, mae Casey'n diweddaru asesiadau risg a rhoi arweiniad i aelodau'r gwahanol dimau ar ofynion gweithio'n ddiogel. Mae hefyd yn dadansoddi'r data a geir mewn archwiliadau ac adroddiadau, yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu. Mae'n helpu ymchwiliadau ac yn tracio metrigau diogelwch allweddol.

Mae Casey hefyd yn siarad â staff rheng flaen, staff adnoddau dynol ac archwilwyr allanol er mwyn gofalu ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch ac yn gwella ein ffyrdd o weithio yn barhaus.

Gyda hyn mewn golwg, yn ddiweddar cyflwynodd Jones Bros drefn adrodd yn well am faterion diogelwch a monitro cyfredol cyson. Enghraifft o arfer dda yw Cynllun Cymhelliant yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE Incentive Scheme) sy'n gwobrwyo safleoedd am fynd tu hwnt i'r gofynion diogelwch sylfaenol.

**Meddai Casey:** "Mae ein gwaith yn hanfodol er mwyn atal damweiniau, cwrdd â'r gofynion cyfreithiol a gwarchod iechyd a lles ein holl staff. Mae rhoi sylw trwyadl i ddiogelwch yn allweddol er mwyn ennill hyder ein cwsmeriaid ac ailennill contractau.

"Mae'n hanfodol fod timau bob prosiect yn prynu mewn i'r ethos hwn oherwydd pan fydd pawb yn rhoi sylw dyledus i ddiogelwch bydd y perygl o ddamweiniau'n lleihau.

"Mae'r undod hwn yn bwysig er mwyn gweithredu'n effeithiol, lledaenu enw da'r cwmni ac, yn bwysicaf oll, er mwyn diogelu iechyd a lles pawb."

## Beatrice Harkin

**Uwch Ysgrifennydd Cynnwys a Chydlynydd Rhanddeiliaid**



Mae gwaith Beatrice o fewn y tîm dylunio ac adeiladu yn amrywiol iawn. Mae'n cynnwys ochr gymdeithasol ein hymrwymiad i ragoriaeth amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG), a llawer mwy.

Ymhlith ei thasgau y mae cynhyrchu cyflwyniadau technegol, creu CV'au, paratoi astudiaethau achos, llunio holiaduron cyn-gymhwyso, gosod deunydd ar y we, paratoi ceisiadau am wobrau ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Bu Beatrice yn cysylltu â'r cyhoedd yn Llanberis, Bae Penrhyn ac, yn fwyaf diweddar, ym Mae Cinmel. Roedd hyn yn cynnwys ymweld ag ysgolion, trefnu cystadlaethau llunio posteri, paratoi taflenni newyddion a chreu deunydd cabannau gwybodaeth.

Rhan bwysig o'i gwaith yw mynychu ffeiriau swyddi mewn mannau fel Llandudno a Bae Colwyn a chyfarfodydd cymunedol mewn mannau fel Cefnbychan.

**Meddai Beatrice:** "Mae cysylltu â chymunedau lleol yn bwysig iawn. Rydym yn frwd o blaid ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf a gwneud lles i'r mannau lle byddwn yn gweithio.

"Yn naturiol, mae trigolion eisiau gwybod beth sy'n digwydd pan fyddwn yn eu hardal. Mae'n bwysig egluro ein prosiectau, ateb unrhyw gwestiynau a lleddfu unrhyw bryderon.

"Rhan braf o'r gwaith yw mynychu ysgolion a digwyddiadau lleol. Nid yw pobl ifanc bob amser yn sylweddoli fod gyrfaoedd da ar gael o fewn y maes peirianneg sifil, a llawer o bosibiliadau gwahanol.

"Mae gan blant ddiddordeb mawr yn yr offer a'r peiriannau wrth iddynt ymweld â'n safleoedd gwaith. Fel cwmni, rydym yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt, a'u helpu i ddysgu rhagor am y sector."

## Sam Higgitt

**Rheolwr Amgylcheddol**




Gyda bron i 20 mlynedd o brofiad yn y maes, mae Sam yn croesawu'r ffaith fod mwy nag erioed o bwyslais ar effeithiau amgylcheddol prosiectau.

Fel arbenigwr mewn rheoli gwastraff, adnoddau dŵr a digwyddiadau, mae'n dwyn ynghyd a chydgordio pob agwedd ar faterion amgylchedd wrth i'r cwmni wneud ei waith.

Mae hyn yn cynnwys paratoi arolygon ac adroddiadau ac mae ei ddull o weithredu ar sail risg a'i adnabyddiaeth o'r ardal a rhanddeiliaid lleol yn cyfuno i ganfod atebion sy'n cydbwyso'r gofynion amgylcheddol a'r ystyriaethau peirianneg, cyllid a rhaglennu gwaith.

Gwelodd Sam yr agwedd hon o'i waith yn datblygu'n sylweddol yn ystod ei ugain mlynedd yn y sector. Meddai: "Mae cleientiaid yn rhoi mwy o sylw ac arwyddocâd i effeithiau amgylcheddol eu gwaith nag o'r blaen.

**Meddai Sam:** "Gyda phynciau fel cynhesu byd eang a symud tuag at sero net yn uchel ar yr agenda, mae agweddau amgylcheddol pob cynllun yn dod yn fwyfwy pwysig ac mae gennym gefnogaeth llawn amser ar lawer o'n cynlluniau mawr.

"Yn Jones Bros, mae'r cynefin lle rydym yn gweithio wastad wedi bod yn elfen bwysig o ran ein dymuniad i'w warchod a'i wella. Ac felly mae'r newid wedi bod er gwell i ni.

"Mae'n braf medru mynd allan i'n gwahanol safleoedd, cysylltu â'n timau gwaith a gweld y gwaith gwych a wneir."



Dyma rai ffeithiau a ffigyrau trawiadol am ein prosiectau a'n hymrwymiad i wella ein ffyrdd o weithio.

# Wyddech chi?

**Fel cwmni, rydym wedi:**

- Recriwtio mwy na 300 o bobl dros y deng mlynedd ddiwethaf i'n cynllun prentisiaeth lefel dau
- Lansio cynllun hyfforddi gyrwyr peiriannau ag arno 26 o bobl ifanc, mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar ariannu prentisiaethau lefel dau a newid i'r fframwaith lefel tri
- Cyflogi naw o bobl newydd ar ein cynllun prentisiaeth uwch, sydd yn awr yn cynnwys gradd anrhydedd BEng (Hons) mewn maintfesur (quantity surveying)
- Derbyn dyfarniad rhagoriaeth y Gymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau (RoSPA) am lwyddo i ennill 16 gwobr aur yn olynol
- Adfer mwy na 575,000m² o dir ar amrywiol gynlluniau amgylcheddol i Gyngor Sir y Fflint, gyda'r gwaith yn cynnwys plannu coedlannau a gwella tir amaethyddol a glaswelltir amwynder. Disgwylir trin 400,000m² arall wrth i gyfnod y fframwaith gael ei ymestyn
- Cyrraedd carreg filltir arwyddocaol, sef 500,000 awr heb gofnodi unrhyw ddigwyddiad lle collwyd amser (lost time incident – LTI) yn Fferm Wynt North Kyle
- Defnyddio cyflenwyr ac is gontractwyr lleol o fwy na 20 o gwmnïau o Ogledd Cymru yn ystod ein gwaith ar gynllun ynni Morlais ar arfordir Ynys Môn
- Yn yr enghraifft gyntaf o'i bath yn y byd, ailgartrefu holl boblogaeth rîff rhyng-lanw y mwydyn crwybr (honeycomb reef worm) fel rhan o'n gwaith ar gynllun amddiffyn arfordir Bae Penrhyn

**Pencadlys y Vita Nova Centre**

- Chwarae rhan allweddol yng ngwaith adeiladu'r ganolfan weithredu sy'n gartref i'r Brit European Group ym Middlewich, Swydd Gaer. Mae'r ganolfan hon yn 100% garbon niwtral
- Defnyddio dull sefydlogi sment (cement stabilisation) i leihau'r angen i gerbydau gludo cerrig i'r safle a phridd oddi yno, ynghyd â gosod tanciau casglu dŵr glaw gan ostwng 85% ar y defnydd o ddŵr
- Darparu dwythellau (ducts) ar gyfer gosod tyrbinau fertigol i gynhyrchu ynni gwynt, a defnyddio generaduron ynni solar i leihau mwy na 50% ar faint y tanwydd angenrheidiol yn ystod y cyfnod adeiladu 10 mis

**Uskmouth**

- Defnyddio'r rheilffordd i gludo tua 74,000 m³ o ddeunydd agreg i'r safle gan chwarae rhan allweddol yn lleihau 230,000 milltir o deithiau loriau ar y ffordd yn ystod y cyfnod adeiladu
- Fel rhan o gynllun gwella'r ecoleg, sy'n cynnwys creu parc ynni cynaliadwy, bydd gosod ffensys newydd a gwaith tirweddu yn gwneud y safle'n fwy deniadol i fywyd gwyllt, yn cynnwys dyfrgwn a llygod dŵr
- Defnyddio'r isadeiledd presennol, megis y cysylltiad grid, cyflenwadau dŵr diwydiannol a mynediad rheilffordd i ddanfon eitemau allweddol i'r safle

Jones Bros Civil Engineering UK, Tŷ Glyn, Canol y Dre, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1QW

01824 703 661 jonesbrosUK @jonesbrosUK